Cyswllt Celf
Arts Connection

Canolfan Ieuenctid a Chymunedol
Llanfyllin
Powys SY22 5DR
CYMRU

Youth & Community Centre
Llanfyllin
Powys SY22 5DR
WALES

Lankelly chase
Registered Charity No. 1107583
Company Limited by Guarantee No. 5309739

COMPANY REGISTERED IN ENGLAND AND WALES - 2911716 - CWMNI COFRESTREDIG YN LLOEGR A CHYMRU
REGISTERED CHARITY NUMBER - 1135641 - ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Ffôn 01691 648 929 Phone
Ffôn Symudol 07814 523 521 Mobile Phone

e-bost nerys / sian@artsconnection.org.uk e-mail
gwefan www.artsconnection.org.uk - www.cyswlltcelf.org.uk web

Briff Artistiaid Prosiect 'Fi a'm Pethau' 2010

- Rhaglennir i ddigwydd ym mis Medi a mis Hydref 2010 -

Cefndir a Chyd-destun
Mae Cyswllt Celf yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chynhalwyr Ifanc Powys ar raglen o weithgareddau celf a ariennir gan Sefydliad Lankelly Chase.

Nod y prosiect yw rhedeg sesiynau blasu celfyddydau ar draws Powys. Wedyn bydd Cynhalwyr Ifanc yn penderfynu pa weithdai celf bydden nhw'n hoffi datblygu ymhellach.

Briff
Rydym yn chwilio am gynigion ar gyfer gweithdai ar draws amrediad o ymarferion artistig i gynnig gweithdai blasu i gynhalwyr ifanc ar draws Powys.

Bydd y prosiect yn rhedeg mewn tair ardal:

- Maldwyn – Canolfan Ieuenctid Y Trallwng – dydd Sadwrn 2ail Hydref, 10yb – 4yp
- Maesyfed – CARAD – dydd Sadwrn 25ain Medi, 10yb – 4yp
- Brycheiniog – Canolfan Ieuenctid Aberhonddu – dydd Sadwrn 2ail Hydref, 10yb – 4yp

D.S. Gall artistiaid ymgeisio am fwy nag un diwrnod, er bod gweithdai Maldwyn a Brycheiniog yr un diwrnod; gall artistiaid o'r naill ardal neu'r llall hefyd ymgeisio i weithio ym Maesyfed.

Bydd 6 artist yn gweithio ym mhob ardal. Bydd tua 30 o gynhalwyr ifanc ym mhob diwrnod gweithdy, sy'n golygu y bydd grwpiau'n cynnwys rhyw 7 o bobl ifanc yr un.

Disgwyliwn i'r artist redeg gweithdy fydd yn cael ei ail-adrodd tair gwaith mewn diwrnod er mwyn cynnig lle i'r cynhalwyr ifanc fydd yn bresennol.

Dewisir pedwar o'r chwe artist i redeg diwrnod arall o weithgareddau yn ystod gwyliau hanner tymor yr Hydref. Mae'n rhaid i artistiaid felly fod ar gael i weithio ar un o'r dyddiau a ddewisir fel yr amlinellir ar y ffurflen cynnig prosiect.

Canllawiau Tâl at bwrpas Cyllidebu
Cyfradd Ddyddiol Artist - £150; os ydych yn teithio dros 50 milltir (cyfanswm yno ac yn ôl) telir costau teithio ar raddfa £0.40 y filltir.

Dethol a Chymhwysedd
Bydd angen i artistiaid sy'n ymgeisio dangos profiad ym maes celfyddydau cymunedol a phrofiad o weithio gyda phobl ifanc.

Y Broses Ymgeisio
Gofynnir i artistiaid gyflwyno llythyr atodol gyda:

- Ffurflen Cynnig Prosiect
- 5 llun o waith blaenorol (os nad ydych wedi gweithio i Gyswllt Celf o'r blaen)
- CV
- Rhif CRB a'r Dyddiad Cyhoeddi (os nad oes gennych wiriad CRB cyfredol, bydd yn rhaid i chi fynd drwy'r broses wirio cyn cychwyn y prosiect; cost hyn yw £36)

D.S.: gall methu â chyflwyno unrhyw un o'r uchod ddiddymu eich cais.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os am gael gwybodaeth bellach, croeso i chi ffonio'r swyddfa ar: 01691 648 929

Dylid anfon eich cais, naill ai ar e-bost neu drwy'r post at: sian@artsconnection.org.uk neu: Cyswllt Celf, Canolfan Ieuenctid a Chymunedol, Llanfyllin, Powys, SY22 5DR

Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: Dydd Llun 16eg Awst 2010